



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

Cyn i chi wneud cais am Radd Ymchwil Doethurol yn

CARDIFF
SCHOOL of ART & DESIGN

Helo

Diolch yn fawr am ddangos diddordeb mewn astudio am Ddoethuriaeth gyda ni. Gobeithio y bydd y canllaw hwn yn rhoi'r holl gyngor y bydd ei angen arnoch cyn i chi wneud cais i Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd: Prifysgol Metropolitan Caerdydd i wneud Astudiaeth Ddoethurol. Mae gan yr Ysgol wefan arbennig ar gyfer Graddau Ymchwil i'ch helpu chi a'ch cais:

- <http://www.cardiffmet.ac.uk/artanddesign/researchdegrees>

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am ffioedd a manylion perthnasol eraill, dylech hefyd fynd i wefan Graddau Ymchwil y Brifysgol:

- <http://www.cardiffmet.ac.uk/research/Pages/Research-Degrees.aspx>

Mae'n hanfodol eich bod yn darllen yr adran **Cyn i chi wneud cais** isod.

Rydym yn cael llawer o geisiadau gan ddarpar fyfyrwyr nad ydynt yn dilyn y cyngor sydd yn y canllaw hwn. Ar y gorau, mae hyn yn golygu bod eu cais yn hwyr ond, yn aml iawn, rhaid eu gwrthod am

nad yw eu cais yn addas i'n Hysgol neu am nad ydynt yn barod i wneud cais am Radd Ymchwil.

Os ydych yn ystyried astudio am radd ymchwil, rydych wedi cymryd y cam cyntaf ar daith ddeallusol gyfoethog a gwerthfawr. Bydd gradd ymchwil yn eich trawsnewid ac yn ailffurfio eich dealltwriaeth o'r byd a chi eich hun. Mae'n daith gyffrous a heriol a byddwn yn gwneud popeth y gallwn i'ch helpu i gyrraedd pen y daith. Darllenwch y canllaw hwn yn ofalus iawn a gobeithio y byddwn yn eich croesawu i'n Cymuned Ymchwil yn fuan iawn.

Rydym yn gefnogol iawn o'n myfyrwyr ac felly mae ein proses gwneud cais yn un ddwys iawn. Rydym am wneud yn siŵr bod gennym y myfyrwyr mwyaf creadigol a'r myfyrwyr gorau sy'n cynhyrchu deilliannau doethurol y gellir eu cymharu'n uniongyrchol ag unrhyw Brifysgol neu Sefydliad Ymchwil arall yn y byd o ran ansawdd.

Dim ond nifer **gyfyngedig iawn** o leoedd sydd gennym i fyfyrwyr doethurol newydd bob blwyddyn. Daw ein myfyrwyr o bob cwr o'r byd i astudio gyda ni ac felly mae'r gystadleuaeth am y nifer gyfyngedig o leoedd yn eithriadol. Bydd angen i chi wneud yn siŵr eich bod wedi gwneud popeth y gallwch er mwyn helpu i sicrhau bod eich cais yn llwyddiannus. Darllenwch yr adrannau canlynol i'ch helpu i wneud cais:

- Cyn i chi wneud cais.
- Ein goruchwylwyr a'n cymunedau ymchwil doethurol
- Pa raglenni ymchwil rydym yn eu cynnig?
- Pryd i wneud cais?
- Sut i wneud cais os ydych yn dod o'r DU/UE?
- Sut i wneud cais os nad ydych yn dod o'r DU/UE?
- Beth sy'n digwydd nesaf?
- Pam gwneud cais i ni?
- Ysgrifennu eich Cynnig Ymchwil Cychwynnol
- Os bydd gennych unrhyw gwestiynau o hyd

Dr Stephen Thompson

Arweinydd Academaidd Astudiaethau i Raddedigion: Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd

Cyn i chi wneud cais

Cyn i chi ddechrau ar eich cais, dylech sicrhau eich bod wedi cwblhau'r holl gamau gofynnol ar y rhestr wirio Un-Dau-Tri ar gyfer Gwneud Cais:

Un A ydych wedi gwneud ymchwil amdanom:

Waeth ble rydych yn y byd, cyn i chi wneud cais, mae'n rhaid i chi nodi pa oruchwylydd neu grŵp ymchwil yr hoffech weithio â nhw ac ystyried y berthynas rhwng eich diddordebau ymchwil a'ch arbenigedd â'r diddordebau pwnc y gallwn eu cefnogi. Drwy gydol eich gwaith ymchwil, eich goruchwylwyr fydd eich prif ffynhonnell o arweiniad ac adborth mewn perthynas â'ch PhD, felly mae'n bwysig gwneud y penderfyniad cywir.

Cysylltwch â'r person neu'r bobl sydd gennych mewn golwg fel goruchwylwyr yn anffurfiol i drafod eich syniadau a gweld a oes ganddynt diddordeb yn eich helpu - gallant eich helpu i ysgrifennu eich cynnig a gwneud cais. Os na fyddant yn ymateb i'ch e-bost cyntaf, rhowch gynnig arall arni. Os na fyddant yn ateb y tro cyntaf, dim arwydd o ddiffyg diddordeb yw hyn - yr esboniad syml yw eu bod yn cael llawer o negeseuon e-bost bob dydd.

Mae rhestr o'n goruchwylwyr a'n grwpiau ymchwil ar gael yn nes ymlaen yn y canllaw hwn. Os nad ydych yn siŵr â phwy y dylech gysylltu o hyd, cysylltwch â ni am gyngor. Wrth wneud eich cyswllt anffurfiol cyntaf, byddai'n ddefnyddiol cynnwys CV byr (dim mwy na 2 dudalen) a rhyw 1,000 o eiriau sy'n amlinellu'r canlynol:

- Y pwnc neu'r cwestiwn ymchwil rydych yn debygol o ganolbwyntio arno.
- Dadl neu faes pwnc eich ymchwil.
- Pam eich bod yn ystyried gwneud eich ymchwil yn Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd.
- Eich rhesymau proffesiynol a/neu bersonol dros wneud ymchwil MPhil neu PhD.

Dau A oes gennych y cymwysterau addas?

Fel arfer, dylai ymgeiswyr sy'n gwneud cais ar gyfer astudiaethau ymchwil sy'n anelu at ddoethuriaeth feddu ar radd israddedig anrhydedd ail ddosbarth uwch (2:1) neu well o sefydliad addysg uwch cydnabyddedig, neu gymhwyster ôl-raddedig neu gymhwyster sy'n cyfateb i'r lefel hon ym marn y Brifysgol.

Gan ddibynnu ar eich profiad ymchwil blaenorol, fel arfer cewch eich cofrestru i ddechrau ar gwrs MRes/PhD neu MPhil/PhD.

- Caiff ceisiadau ar gyfer PhD eu hystyried gan **bob** ymgeisydd sydd wedi ennill gradd dosbarth 2:1 neu gymhwyster cyfatebol. Mae'r dyfarniad hwn yn cynnwys elfen hyfforddiant ymchwil gychwynnol cyn dechrau ar y gwaith ymchwil dan oruchwyliaeth.

Tri A yw eich Saesneg yn ddigon da?:

Bydd angen i fyfyrwyr nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf ddarparu tystiolaeth eu bod yn rhugl hyd at safon 6.5 IELTS o leiaf (o leiaf 6.5 yn yr elfennau darllen ac ysgrifennu) neu safon gyfatebol. Fodd bynnag, rydym yn **argymhell yn gryf** y dylech astudio er mwyn cyrraedd **safon 7.0 IELTS**.

Bydd y gwaith darllen ac ysgrifennu ar gyfer Gradd Ymchwil yn heriol ac felly os nad ydych yn cyrraedd y safon hon, byddwch yn ei chael hi'n anodd cwblhau eich doethuriaeth. Bydd Gradd Ymchwil yn fuddsoddiad ariannol a deallusol mawr ac os na allwch siarad ac ysgrifennu Saesneg i safon uchel, gallech wastraffu eich amser a'ch arian.

Os yw'r agwedd hon ar eich cais yn eich poeni, beth am wneud cais am MRes yn gyntaf. Byddwch yn agos at fod yn rhugl ar ôl blwyddyn yn y DU ac yn hyderus i ddefnyddio Saesneg fel iaith academiaidd a thechnegol.

Goruchwylwyr Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd a Chymunedau Ymchwil Doethurol

Mae Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd yn gartref i amrywiaeth o ganolfannau a grwpiau sy'n ymgymryd â gwaith ymchwil arloesol o'r radd flaenaf. Mae gennym rai goruchwylwyr sy'n ymwneud â chymunedau cymorth ac ymchwil doethurol sydd o ddiddordeb cyffredin iddynt:

- CARIAD
- EBERE
- Ymchwil Metatechnigrwydd
- Fovolab
- FabCr8
- Dylunio sy'n Canolbwyntio ar y Defnyddiwr (UCD)

Mae dolenni i'n chwe grŵp ymchwil doethurol ar gael yma:

- www.cardiffmet.ac.uk/artanddesign/research-enterprise/Pages/Research.aspx

Hefyd, mae gennym rai goruchwylwyr sy'n gweithio y tu allan i'r grwpiau hyn, neu ar draws cymunedau. Mae dolenni i restr lawn o'n holl Goruchwylwyr Doethurol a'u meysydd goruchwyllo ar gael yma:

- www.cardiffmet.ac.uk/artanddesign/researchdegrees/Pages/Supervisors-and-areas-of-supervision.aspx

Pa Raglenni Ymchwil rydym yn eu cynnig?

Mae Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd yn cynnig pedwar cyfle ymchwil gwahanol.

PhD Mae PhD yn rhaglen ymchwil drylwyr a heriol. Cyflawnir PhD drwy ymgymryd â darn estynedig o waith ymchwil gwreiddiol dan oruchwyliaeth sy'n arwain at thesis a all fod yn ddamcaniaethol neu'n seiliedig ar ymarfer. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys cyfnod hyfforddiant ymchwil cychwynnol a gwblheir cyn dechrau ar y gwaith ymchwil.

Doethuriaeth Broffesiynol Mae Doethuriaeth Broffesiynol yn rhaglen broffesiynol drylwyr a heriol. Mae'r Ddoethuriaeth Broffesiynol yn rhaglen gradd uwch a strwythurwyd yn benodol i ategu newid fesul cam a gynlluniwyd a/neu a weithredwyd o fewn cyd-destun proffesiynol, wedi'i llywio gan wybodaeth broffesiynol ac academiaidd bresennol neu newydd, a/neu ddamcaniaeth.

Os nad ydych yn teimlo'n barod ar gyfer gofynion sylweddol gwneud cais am raglen ymchwil ddoethurol, beth am ystyried MRes yn gyntaf.

Mae **MRes** yn rhaglen Meistr Ymchwil a addysgir y gellir ei defnyddio i baratoi ar gyfer astudiaethau doethurol yn y dyfodol mewn unrhyw Brifysgol ac i wneud cais am astudiaethau o'r fath. Mae MRes yn rhoi'r cyfle i chi ddechrau eich gwaith ymchwil a rhoi ffocws iddo ac yna symud ymlaen yn uniongyrchol i wneud MPhil/PhD naill ai gyda ni neu rywle arall mewn Prifysgol neu Sefydliad Ymchwil arall. Mae'r rhaglen yn addas i fyfyrwyr sydd â rhywfaint o brofiad ymchwil ym maes Celf a Dylunio ac i'r rheini nad oes ganddynt lawer o brofiad ymchwil cefndirol, os o gwbl, mewn unrhyw faes. Wrth ddechrau'r cwrs, nid oes unrhyw ragdybiaethau ynghylch ble y gallai eich prosiect ddechrau na sut y gallai ddatblygu ac mae gennym feddwl agored o ran posibilïadau arferion ymchwil creadigol ym maes Celf a Dylunio. Mae'r cais yn seiliedig ar amlinelliad syml o'ch syniadau a'ch uchelgeisiau o ran gwaith ymchwil.

Mae rhagor o wybodaeth am y cwrs MRes ar gael ar-lein yn:

- <http://www.cardiffmet.ac.uk/artanddesign/courses/Pages/MRes-Art--Design.aspx>

Pryd i Wneud Cais?

Pryd i wneud cais am PhD.

Mae ein rhaglenni gradd ymchwil PhD yn dechrau ym mis Medi bob blwyddyn.

Rhaid i geisiadau gyrraedd Uned Derbyn Prifysgol Metropolitan Caerdydd erbyn **30 Ebrill** bob blwyddyn er mwyn cael eu hystyried. Mae'n bosibl **na** chaiff ceisiadau hwyr eu hystyried:

Pryd i wneud cais am Ddoethuriaeth Broffesiynol

Mae gan y rhaglen Doethuriaeth Broffesiynol ddau bwynt cychwyn yn ystod y flwyddyn academaidd: mis Tachwedd a mis Ebrill. Rhaid i geisiadau gyrraedd

Uned Derbyn Prifysgol Metropolitan Caerdydd erbyn diwedd **30 Tachwedd** ar gyfer cofrestru ym mis Mawrth neu ddiwedd **30 Mehefin** ar gyfer cofrestru ym mis Hydref.

Sut i wneud cais os ydych yn dod o'r DU/UE?

Bydd eich darpar oruchwylydd wedi eich helpu i lunio cynnig anffurfiol ar gyfer eich PhD.

Bydd angen i chi gyflwyno hwn ynghyd â'ch cais ar-lein drwy fynd i'r cyfeiriad canlynol:

- studentselfservice.uwic.ac.uk/selfservice

Gallwch chwilio am eich cwrs dewisol a gwneud cais ar ei gyfer ar ein system ar-lein.

Cysylltwch â'r Uned Derbyn os hoffech lenwi ffurflen gais drwy gyfrwng y Gymraeg.

Drwy'r adran Hunanwasanaeth, gallwch gyflwyno cais yn uniongyrchol i'r brifysgol. Mae hyn yn eich galluogi i atodi dogfennau gorfodol a dogfennau ategol eraill fel cymwysterau (rydym yn eich cynghori i lanlwytho cymwysterau, os ydych wedi'u cwblhau, gyda'ch cais).

Er mwyn gwneud cais, rhaid i chi wneud y canlynol:

- Cwblhau Ffurflen Gais y Brifysgol, gan gynnwys manylion eich cymwysterau ac enwau a manylion cyswllt eich canolwyr academiaidd a phersonol.
- Lanlwytho **Cynnig Ymchwil Cychwynnol** ar gyfer Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd
- Lanlwytho dwy enghraifft o waith **Ysgrifennu Academiaidd blaenorol yn Gymraeg neu'n Saesneg**.
- Lanlwytho unrhyw [Ddogfennau Ategol](#) ychwanegol.

Ar ôl i chi gyflwyno cais, gallwch fewngofnodi a chadarnhau statws eich cais.

Byddwn yn prosesu eich cais mor gyflym â phosibl, ond nodir na chaiff ei ystyried tan ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ac y gall gymryd hyd at wyth wythnos ar ôl y dyddiad hwnnw.

Os ydych yn cael problemau, mae croeso i chi siarad ag Uned Derbyn y Brifysgol drwy ffonio: **+44 29 2041 6010**

Commented [HF1]: Need email address as well.

Sut i wneud cais os nad ydych yn dod o'r DU/UE?

Rydym yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr o bob rhan o'r byd ac yn cydnabod amrywiaeth eang o gymwysterau rhyngwladol. Er mwyn cael gwybodaeth am wneud cais, gan gynnwys sut i gael gafael ar y Ffurflen Gais i Fyfyrwyr Rhyngwladol a dogfennau ategol, ewch i

- <http://www.cardiffmet.ac.uk/international>

Er mwyn gwneud cais, rhaid i chi wneud y canlynol:

- Cwblhau Ffurflen Gais y Brifysgol, gan gynnwys manylion eich cymwysterau ac enwau a manylion cyswllt eich canolwyr academiaidd a phersonol. Gwnewch yn siŵr fod Adran 12 o'r Ffurflen Gais i Fyfyrwyr Rhyngwladol yn ymdrin â phwyntiau 1-5 a nodir yn yr adran Cynnig Ymchwil.
- Lanlwytho **Cynnig Ymchwil Cychwynnol** ar gyfer Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd
- Lanlwytho dwy enghraifft o waith **Ysgrifennu Academiaidd blaenorol yn Saesneg**.
- Lanlwytho unrhyw [Ddogfennau Ategol](#) ychwanegol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am eich cais rhyngwladol, anfonwch e-bost i international@cardiffmet.ac.uk

neu ffoniwch **+44 29 2041 6045**.

Ar ôl i'ch ffurflen gais ddod i law, caiff ei throsglwyddo i Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd ei hystyried.

Byddwn yn prosesu eich cais mor gyflym â phosibl, ond nodir na chaiff ei ystyried tan ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ac y gall gymryd hyd at wyth wythnos ar ôl y dyddiad hwnnw.

Fel arfer, gwneir cais i gael eich derbyn ar gyfer dyfarniadau doethurol drwy gyflwyno cynnig astudiaethau ymchwil cychwynol ynghyd â ffurflen gais y Brifysgol a manylion unigolion sy'n barod i weithredu fel canolwyr.

Caiff pob cais am ddyfarniadau doethurol ei ystyried gan banel derbyn Graddau Ymchwil Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd. Mae'n bwysig gwneud rhywfaint o waith ymchwil yn gyntaf er mwyn gwneud penderfyniad clir ynghylch y cyfeiriad gorau ar gyfer eich cais a'r dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau am y dyfarniad yr hoffech astudio ar ei gyfer.

Fe'ch anogir yn gryf i gysylltu â darpar oruchwylwyr neu'r rhaglen ddoethurol benodol er mwyn trafod eich syniadau cyn gwneud cais.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Ar ôl i chi wneud cais ffurfiol i astudio am ddyfarniad doethurol, caiff ei ystyried gan banel Derbyn Graddau Ymchwil Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd, sy'n cynnwys goruchwylwyr ymchwil ddoethurol profiadol.

Bydd y panel yn adolygu pob cais yn ofalus. Bydd am sicrhau bod yr ymgeisydd yn deall beth sy'n ofynnol wrth astudio ar y lefel hon a'i fod yn barod AC wedi gwneud cais i'r lle cywir i hyrwyddo ei ddiddordebau. Bydd am wneud yn siŵr na fyddwch yn gwastraffu eich amser a'ch arian yn astudio am rywbeth rydych yn annhebygol o'i gyflawni.

Caiff pob cais unigol ei ystyried yn y ffyrdd canlynol:

- Aseiad o'ch cais o'ch addasrwydd academiaidd a'ch profiad (gan gynnwys eich sgiliau Saesneg).
- Aseiad o'ch cais o hyfywedd neu ddichonoldeb eich prosiect ymchwil bwriadedig.
- Aseiad o'ch cais o'r gyfatebiaeth rhwng eich prosiect ymchwil bwriadedig a'r arbenigedd ymchwil ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd a ph'un a ellir nodi tîm goruchwyllo priodol.
- Gofyn am eirdaon academiaidd a phersonol.

Fel rhan o'r broses gwneud cais, gwahoddir ymgeiswyr i ddod i gyfweiliad (naill ai wyneb yn wyneb neu o bell). Mae hyn yn cynnig cyfle i ymgeiswyr drafod eu prosiect arfaethedig gydag aelodau'r panel ceisiadau am ddyfarniadau doethurol.

Bydd yn gwneud un o'r pum penderfyniad canlynol:

- **Derbyn** eich cais yn ddiamod
- **Derbyn** eich cais gydag amodau
- **Argymhell diwygiadau** i'ch cais er mwyn iddo gael ei ailystyried ar unwaith neu yn y dyfodol neu er mwyn ailgyfeirio eich cais i un o Ysgolion neu Unedau eraill Prifysgol Metropolitan Caerdydd

neu

- **Gwrthod** eich cais fel y mae, ond **derbyn** eich cais ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig ar ein rhaglen MRes er mwyn datblygu eich ymchwil a gwneud cais eto yn y dyfodol.
- **Gwrthod** eich cais yn llwyr am nad yw'n cyrraedd safon ddigonol ar gyfer astudiaethau doethurol neu am nad oes arbenigedd priodol gan Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd neu un o Ysgolion eraill Prifysgol Metropolitan Caerdydd i gefnogi'r astudiaethau hynny.

Dylech ganiatáu o leiaf chwech i wyth wythnos i gwblhau'r broses hon, ond gall gymryd mwy o amser mewn rhai achosion.

Os gwneir cynnig amodol, bydd angen i ymgeiswyr gyflawni unrhyw ofynion a ddynodir a darparu tystiolaeth ddogfennol berthnasol cyn y gellir dechrau'r broses gofrestru. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.cardiffmet.ac.uk/howtoapply.

Ar ôl i chi gael cynnig lle i astudio am ddyfarniad doethurol, cewch wahoddiad i gofrestru drwy gyfleuster hunanwasanaeth ar-lein y Brifysgol.

Pam gwneud cais i ni?

- <http://www.cardiffmet.ac.uk/research/Pages/default.aspx>

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn gwneud ymchwil sydd ar y rhyngwyneb rhwng creu gwybodaeth newydd a defnyddio'r wybodaeth honno. Gyda hanes o gyflawniadau profedig ym maes ymchwil gymhwysol, a ategir gan sylfaen gref o arbenigedd ac ysgolheigiaeth ddatblygedig, mae gwaith ymchwil y Brifysgol o ddefnydd uniongyrchol i fyd busnes, diwydiant, y proffesiynau a'r gymuned yn gyffredinol.

Mae Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd yn lle gwych i fod yn fyfyrwr ymchwil ynddi. Mae gennym arbenigedd ymchwil o'r radd flaenaf yn yr Ysgol sy'n amrywio o'r empirig a'r gwyddonol i'r barddol a'r myfyrgar. Yn ein hymchwil, rydym yn defnyddio'r Celfyddydau, y Gwyddorau, y Dyniaethau a'r Athroniaethau.

Mae gennym ddiwylliant ymchwil creadigol a hynod gefnogol sy'n fywiog ac yn gyfoethog. Mae hyn i'w weld yn yr amrywiaeth o grwpiau ymchwil sy'n gweithio mewn meysydd disgyblaethol, amlddisgyblaethol a rhyngddisgyblaethol. Rydym yn cydweithio lle y gallwn â phartneriaid academiaidd, diwylliannol a diwydiannol gan ein bod yn ymwneud â thechnolegau a syniadau arloesol yn ein hastudiaethau a'n hymchwil ym maes pensaernïaeth, peirianeg, deunyddiau cain, celfyddydau cain, a hanes, damcaniaethau ac athroniaethau celf a dylunio.

Mae gennym bron i 100 o fyfyrwyr Meistr a bron i 60 o fyfyrwyr Ymchwil Doethurol yng nghymuned ôl-raddedigion ein Hysgol ac mae pob un ohonynt yn cynhyrchu gwybodaeth newydd ac yn cael effaith yn y DU a ledled y byd.

Mae ein myfyrwyr ymchwil wedi cyhoeddi ymchwil ac wedi arddangos eu gwaith yn y DU a thu hwnt.

Mae ein myfyrwyr ymchwil yn gwneud defnydd llawn o'n Labordy Profiad Canfyddiadol, ein MIT-FabLab yn ogystal â'n gweithdai gwneud delweddau ac arteffactau helaeth sydd o'r radd flaenaf, ein stiwdios arbenigol a'n technolegau traddodiadol a digidol.

Mae ein myfyrwyr ymchwil yn gweithio mewn ffordd amlddisgyblaethol, gyddisgyblaethol neu ryngddisgyblaethol â disgyblaethau ymchwil eraill yn ogystal â sectorau masnachol a chymunedol mewn cymdeithasau unrhyw le yn y byd ac maent yn gweithio gyda chanolfannau ymchwil eraill y Brifysgol.

Mae gan ein myfyrwyr ymchwil Gyfarwyddwr Astudiaethau penodedig ac un neu ddau oruchwylydd arall i'w helpu gyda'u hastudiaethau. Ar ôl iddynt gael eu derbyn, rydym yn disgwyl i'n goruchwylwyr fod yn gefnogol iawn o'n myfyrwyr ac felly mae ein proses gwneud cais yn un ddwys iawn.

Yn ôl adolygiad diweddaraf Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil y DU (REF), ein Prifysgol ni oedd y Brifysgol Fodern orau yn y DU.

Ysgrifennu eich Cynnig Ymchwil Cychwynnol ar gyfer PhD

Dylid cwblhau eich cynnig ymchwil ar ffurflen Cynnig Ymchwil Cychwynnol Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd. Mae'r ffurflen honno yn nodi nifer y geiriau rydym yn eu disgwyl. Cynigion cryno a chlir yw'r rhai gorau.

Bydd eich goruchwylwyr yn dylanwadu ar gyfeiriad eich ymchwil, felly cyn cyflwyno eich cynnig ffurfiol, rhaid i chi gysylltu â'r person neu'r bobl sydd gennych mewn golwg er mwyn trafod eich syniadau'n anffurfiol ac asesu eu diddordeb.

Dangoswch yn glir yn eich cynnig ffurfiol gyda phwy rydych wedi trafod eich cais a sut mae'r drafodaeth honno wedi llywio eich syniadau.

Disgrifiwch unrhyw brofiad ymchwil blaenorol a allai fod gennych.

Gall hyn gynnwys hyfforddiant ymchwil ffurfiol (e.e. MRes), hyfforddiant sgiliau ymchwil fel rhan o radd ôl-raddedig, neu hyfforddiant ymchwil sy'n gysylltiedig â'ch gyrfa broffesiynol. Bydd hyn yn ein helpu i benderfynu p'un a fydd angen i chi ymgymryd â'n hyfforddiant ymchwil, ni fydd eich ateb yn effeithio ar eich cais.

Beth rydych yn anelu at ei wneud yn eich gwaith ymchwil? (Hyd at 400 o eiriau)

- Beth yw eich syniad ymchwil?
- Sut y byddwch yn mynd ati, yn eich barn chi?
- Sut y gwnaethoch feddwl am y syniad hwn?

Pam rydych am wneud hyn? (Hyd at 400 o eiriau)

- Pam bod y gwaith ymchwil hwn yn bwysig i chi?
- Pam bod y gwaith ymchwil hwn yn briodol ar eich cyfer a pham eich bod chi'n briodol ar gyfer y gwaith ymchwil
- Beth yw eich uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol?

Yn seiliedig ar gyfeiriadau academiaidd at syniadau a gwybodaeth bresennol, pam bod hwn yn waith ymchwil pwysig, yn eich barn chi? (Hyd at 400 o eiriau)

- Beth sy'n wahanol am eich gwaith ymchwil?

- Pa syniadau y byddwch yn cyfeirio atynt yn eich gwaith ymchwil?
- Pam bod eich gwaith ymchwil yn bwysig, yn eich barn chi?

Meddylwch am yr her nad oes ateb clir iddi ar hyn o bryd (torri tir newydd)? Pa gwestiynau a allai (os cânt eu hateb yn briodol) lenwi'r bwllch hwnnw mewn gwybodaeth, neu ei lenwi'n rhannol?

Cyfeiriadau Ymchwil mewn perthynas â'r cwestiynau uchod. (Defnyddiwch fformat Harvard).

Mae cynnig da yn defnyddio gwaith pobl arall yn y pwnc neu'n cyfeirio at y gwaith hwnnw. Bydd angen i chi fod wedi dangos sut mae gwaith y bobl hyn yn hanfodol o ran llunio neu lywio eich cwestiwn ymchwil. Dylech restru'r holl gyfeiriadau hynny gan ddefnyddio fformat Harvard, gan gyfeirio'n ddelfrydol at waith ymchwil diweddar sy'n bodoli, er enghraifft, yn ystod y 5 neu 6 mlynedd ddiwethaf ac unrhyw waith ymchwil neu destunau hŷn fel sy'n briodol.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau o hyd

Gallwch ddod o hyd i lawer o help gyda ffioedd a fisâu a gwybodaeth berthnasol arall ar wefan Graddau Ymchwil y Brifysgol:

- <http://www.cardiffmet.ac.uk/research/Pages/Research-Degrees.aspx>

Rydym yma i helpu.

Os na allwch ddod o hyd i ateb i'ch cwestiwn o hyd, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau eraill am raddau ymchwil, cysylltwch â:

Gweinyddwr y Rhaglen Graddau Ymchwil

Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd

Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Campws Llandaf

Rhodfa'r Gorllewin

Caerdydd

CF5 2YB,

Cymru, DU

- **+44 29 2041 6291**
- csadresdegrees@cardiffmet.ac.uk

